

# Cynnig i adolygu'r Ddarpariaeth Addysg Gynradd yn ardaloedd Blaenau a Llandybïe

## Adroddiad Ymgynghori



[sirgar.gov.uk](http://sirgar.gov.uk)

## **Yr Adain Moderneiddio Ysgolion**

**Sara Griffiths**, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

**E-bost:** [aaprm@sicar.gov.uk](mailto:aaprm@sicar.gov.uk)

**Ffôn:** 01267 246618

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	1
Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol.....	5
Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig.....	33
Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn .....	37
Ymgynghori â'r Disgyblion.....	38
Opsiynau Eraill .....	42

### Atodiadau

Atodiad A – Cynllun Busnes

Atodiad B – Sylwadau Disgyblion

# Crynodeb Gweithredol

## Y Cyfnod Ymgynghori

Ar 11 Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynnig i:

- Adolygu'r Ddarpariaeth Addysg Gynradd yn ardaloedd Blaenau a Llandybïe.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 11 Ionawr 2021, yr un pryd â chyhoeddi'r cynnig, a daeth i ben ar 16 Gorffennaf 2021. Daeth 420 o ymatebion i law (ac eithrio'r ymatebion gafwyd gan Estyn a thrwy'r digwyddiadau ymgynghori â disgyblion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law			
Arolwg ar-lein	E-bost	Llythyr	Cyfanswm
324	41	55	420

Rhaid nodi bod pob un o'r 420 o sylwadau wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

## Digwyddiadau Ymgynghori

Oherwydd goblygiadau parhaus pandemig y Coronafeirws, fe'n cynghorwyd i ohirio pob digwyddiad lle'r oedd rhwng staff, rhieni a'r gymuned ehangach, ac o ganlyniad cafodd sesiynau galw heibio rhithwir eu cynnal drwy Microsoft Teams.

## Anffurfiol

Cynhaliwyd sesiynau galw heibio anffurfiol rhithwir cyn dechrau'r cyfnod ymgynghori ffurfiol gyda rhanddeiliaid perthnasol.

## Ffurfiol

Cynhaliwyd sesiwn galw heibio ffurfiol rithwir ar **26 Ionawr 2021 am 4:30pm am gyfnod o ddwy awr**. Mynychodd 21 o randdeiliaid sesiwn galw heibio yr ymgynghoriad ffurfiol.

## **Yr Ymatebion a Ddaeth i Law**

Mae'r ymatebion a gafwyd wedi'u categoriiddio i'r themâu canlynol:

### **Cefnogol**

- Thema 1 – Dim rheswm
- Thema 2 – Cefnogaeth i'r cynnig
- Thema 3 - Addysg disgyblion yn y dyfodol
- Thema 4 – Llwybrau a pharcio diogel
- Thema 5 - Ddim yn cefnogi newid yn natur y ddarpariaeth
- Thema 6 - Darpariaeth gofal plant
- Thema 7 – Tegwch y ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar
- Thema 8 – Safle arfaethedig yr ysgol newydd
- Thema 9 - Cyfleusterau cymunedol
- Thema 10 - Trefniadau trosiannol
- Thema 11 - Cynhwysiant
- Thema 12 - Safleoedd ysgol diangen
- Thema 13 - Capasiti newydd yr ysgol
- Thema 14 - Ymgynghori yn ystod pandemig
- Thema 15 – Cefnogaeth i ysgolion bach
- Thema 16 - Cefnogi newid yn natur y ddarpariaeth
- Thema 17 - Adleoli Ysgol Llandybïe

Ddim yn siŵr (ymatebwyr heb ymateb y naill ffordd na'r llall)

- Thema 1 – Dim rheswm
- Thema 2 - Y Sefyllfa Bresennol

### **Pryderon**

- Thema 1 - Effaith ar y gymuned
- Thema 2 - Dewis ysgol fach
- Thema 3 - Y Sefyllfa Bresennol
- Thema 4 - Ymgynghori yn ystod pandemig
- Thema 5 - Effaith ar amserau a phellter teithio disgyblion
- Thema 6 – Dewis ysgol fach yn y dyfodol
- Thema 7 - Llwyddiant Cylch Meithrin Ysgol Blaenau ac effaith cau
- Thema 8 – Dim rheswm
- Thema 9 - Pryderon yngylch ysgolion/dosbarthiadau mawr
- Thema 10 – Safon y Ddogfen Ymgynghori a gwybodaeth anghywir
- Thema 11 – Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Thema 12 – Newid yn natur y ddarpariaeth
- Thema 13 - Cyflwr ac addasrwydd Ysgol Blaenau
- Thema 14 – Effaith ar y Gymraeg
- Thema 15 - Enw'r ysgol newydd
- Thema 16 – Pwysau ariannol
- Thema 17 – Safleoedd ysgol diangen
- Thema 18 – Arweinyddiaeth gynaliadwy
- Thema 19 – Effaith y cynnig ar ddisgyblion presennol

- Thema 20 - Effaith y cynnig/sïon
- Thema 21 – Safle arfaethedig yr ysgol newydd
- Thema 22 - Effaith y cynnig ar y pentref a thrigolion Llandybïe
- Thema 23 - Amseriad y gweithredu
- Thema 24 - Dyluniad yr ysgol newydd

## Crynodeb Cyffredinol

Cefnogol	36%	Ddim yn gefnogol	63.5%	Ddim yn siŵr	0.5%
----------	-----	------------------	-------	--------------	------

## Gweithdai

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar 16 Gorffennaf 2021 cynhaliwyd gweithdy i ddadansoddi'r sylwadau a ddaeth i law.

## Sylwadau eraill a gafwyd

### Cynllun Busnes

Yn ogystal â sylwadau a dderbyniwyd, cyflwynwyd Cynllun Busnes ar gyfer Ysgol Gynradd Blaenau yn ystod y Cyfnod Ymgynghori ffurfiol. Gellir gweld y cynllun busnes llawn yn Atodiad A.

### Fideo

Derbyniwyd fideo gan nad oedd yr ymgynghoreion/rhanddeiliaid yn gallu casglu a phrotestio oherwydd amseriad yr ymgynghoriad yn ystod pandemig byd-eang, ac mae'r fideo wedi'i drosglwyddo i'r Cabinet (yr hen Fwrdd Gweithredol).

### Deiseb ac Ystadegau Tudalen Facebook

Roedd deiseb ar-lein "Rhoi Stop ar gau Ysgol Blaenau" wedi derbyn 552 o lofnodion erbyn 10:30pm ar 21/02/21.

Hefyd roedd 428 wedi hoffi'r Dudalen Facebook "Ysgol Blaenau - SOS - Achub ein Hysgol", ac mae'r postiad wedi cyrraedd 11,600 ac mae 5,443 wedi ymateb mewn rhyw fodd i'r postiad yn yr wythnos yn dechrau 15/02/21.

## **Y Camau Nesaf**

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a allai benderfynu cyhoeddi'r cynnig fel yr ymgynghorwyd yn ei gylch gydag addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw'r sefyllfa bresennol, neu ail-lunio'r cynnig yn sylwedol ac ailymgynghori.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen i gyhoeddi Hysbysiad Statudol, caiff hwn ei gyhoeddi maes o law.

## Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
<b>Sylwadau Cefnogol a Gafwyd</b>				
1.	<b>Dim rheswm</b> Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu cefnogaeth.		93	22%
2.	<b>Cefnogaeth i'r cynnig</b> Roedd ymatebwyr yn cydnabod yr angen am fuddsoddi a manteision cael ysgol newydd a modern sy'n addas ar gyfer dysgu yn yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif.	<p>Un o nodau strategol y Rhaglen Moderneiddio Addysg yw datblygu seilwaith ym mhob ysgol sy'n ei galluogi i ddarparu addysg yn yr 21ain ganrif ac sy'n cefnogi gwireddu'r amcanion craidd ar gyfer codi safonau addysgol a chynnal perfformiad o safon uchel.</p> <p>Mae disgwyl i'r ysgolion hynny a gynlluniwyd fel eu bod yn bodloni'r galwadau presennol ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddulliau addysgu sy'n ysbrydoledig ac o safon uchel, a bydd hyn oll yn bosibl drwy wireddu'r cynnig hwn, os caiff ei dderbyn.</p>	31	7%
3.	<b>Addysg disgyblion yn y dyfodol</b> Roedd ymatebwyr yn cydnabod byddai'r cynnig yn cefnogi datblygu model	Os derbynir y cynnig, bydd ei weithredu'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith ysgolion sy'n effeithiol yn addysgol, yn effeithlon o ran adnoddau, ac yn gynaliadwy yn y tymor hir. Yn bwysicaf oll,	7	2%

	<p>addysg oedd yn addas ar gyfer y dyfodol. Roedd ymatebwyr yn cydnabod byddai buddsoddi'n gwella cyfleusterau addysg i ddisgyblion.</p>	<p>bydd yn sicrhau model cynaliadwy o ddarpariaeth ddysgu sy'n diwallu anghenion a dyheadau pob plentyn yn awr ac yn y dyfodol.</p>		
4.	<p><b>Llwybrau diogel a pharcio</b> Nododd ymatebwyr fod angen sicrhau llwybrau diogel i'r ysgol a digon o le parcio.</p>	<p>Fel rhan o'r broses gynllunio, cynhelir Asesiad Trafnidiaeth llawn sy'n ystyried y sefyllfa bresennol a'r datblygiad arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys asesu pob math o deithio (cerbydau modur, cerdded a beicio ac ati) gan gynnwys y ddarpariaeth barcio.</p> <p>Rheolir nifer y lleoedd parcio gan ganllawiau'r awdurdod cynllunio lleol a'r gofynion o ran priffydd, felly bydd nifer y lleoedd yn dibynnu ar y gofynion hyn. Bydd nifer y lleoedd yn adidas ar gyfer yr holl staff, ymwelwyr a rhieni ac ati ar gyfer yr adegau pan fydd y disgyblion yn cael eu casglu a'u gollwng. Bydd nifer y lleoedd hefyd yn caniatáu ar gyfer digwyddiadau fel nosweithiau rhieni neu gyngherddau Nadolig ac ati.</p>	4	1%
5.	<p><b>Ddim yn cefnogi'r newid yn natur y ddarpariaeth</b> Nid oedd ymatebwyr yn teimlo mai newid Ysgol Llandybïe i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg oedd y penderfyniad cywir nac ychwaith y byddai hynny o fudd i'r disgyblion. Nododd</p>	<p>Mae'r cynnig hwn yn ceisio gwella ymhellach gyfleoedd i'r plant sy'n mynchu'r ysgol sicrhau deilliannau sy'n gwella'n barhaus. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy</p>	4	1%

	<p>ymatebwyr y dylai'r ysgol barhau i fod yn drosiannol.</p> <p>gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg.</p> <p>Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarffod llawn y Cyngor Sir. Ar 25 Mehefin 2018 lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyddin. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.</p> <p>Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyddin.</p>		
--	---	--	--

		<p>Mae'n bwysig nodi bod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn mynnu bod holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyddin, gan gynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg, yn symud ar hyd y continwwm iaith, gan ddal i gynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda golwg ar sicrhau ymhen amser y bydd yr holl blant yn ddwyieithog pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd. Byddai'r newid mewn dynodiad iaith yn Llandybïe yn sicrhau bod mwy o gyfle i cyrraedd y nod hwn, gan sicrhau hefyd y gallai disgyblion Ysgol Blaenau symud ar y sail na fydd hynny'n cael effaith niweidiol ar eu trefniadau dysgu presennol.</p> <p>Bydd pa mor gyflym y gall ysgolion ehangu dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ond mae'r disgwyl am gynnydd yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r ysgol wedi'i chlustnodi fel un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith ac mae wedi bod yn y dosbarthiad 'Trosiannol' ers nifer o flynyddoedd bellach. (Trosiannol – ysgol y nodwyd y bydd yn mynd ymlaen i fod yn un cyfrwng Cymraeg).</p>		
6.	<b>Darpariaeth gofal plant</b> Nododd ymatebwyr fod angen sicrhau bod gofal plant addas a darpariaeth gofal cofleidiol ar gael yn yr ysgol newydd. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at yr angen i ystyried presenoldeb Cylch Meithrin yn y cynnig.	<p>Byddai lleoliad y Cylch Meithrin yn Ysgol Blaenau yn y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o'r cynnig. Byddai'r ysgol newydd yn cynnwys lle ar gyfer darpariaeth gofal plant.</p> <p>Os gweithredir y cynnig, byddai dalgylch Ysgol Gynradd Llandybïe yn cael ei newid i gynnwys dalgylch hen Ysgol Gynradd Blaenau, felly byddai</p>	2	0.5%

		gan gymuned Blaenau fynediad i'r ddarpariaeth gofal plant o fewn y datblygiad ysgol newydd.		
7.	<b>Tegwch y ddarpariaeth Blynnyddoedd Cynnar</b> Nododd ymatebwyr fod angen sicrhau bod cysondeb o ran mynediad at ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar ar draws y Sir.	Mae cyfuniad o ysgolion cynradd 3-11 a 4-11 yn y sir ac mae adolygiad yn cael ei gynnal ar ddarpariaeth feithrin ar hyn o bryd, a disgwylir i adroddiad gael ei gyflwyno i aelodau etholedig yn y 6 mis nesaf i'w ystyried. Pe bai pob ysgol yn y sir yn 3-11 yna byddai perygl bod darparwyr nas cynhelir yn mynd yn anghynaliadwy. Mae'n bwysig bod yr awdurdod yn ystyried sut y byddai ei bolisiâu'n effeithio ar ddarparwyr preifat.	2	0.5%
8.	<b>Safle arfaethedig yr ysgol newydd</b> Roedd ymatebwyr yn cwestiynu addasrwydd safle arfaethedig yr ysgol newydd.	Cynhaliwyd ymarfer manwl i ddewis safleoedd gan gydweithwyr yn Adran yr Amgylchedd, lle nodwyd 7 safle posibl ar gyfer yr ysgol newydd. Cafodd y Maes Hamdden sgôr uchel fel safle posibl yn dilyn yr ymarfer dewis safle.  Llifogydd - gan ddefnyddio'r bwnd a chan roi ystyriaeth ofalus i'r lefelau presennol (heb waredu'r arglawdd/bwnd amddiffyn rhag llifogydd), mae'r ffordd fynediad newydd wedi cael ei dylunio fel ei bod i gyd o fewn y tir sy'n eiddo i'r Cyngor, ac ni fydd angen tir ychwanegol. Bydd mynediad i gerbydau i'r ffermdir, a'r llwybr presennol i gerddwyr yn aros. Bydd rhywfaint o waith yn digwydd ar y ffin ond byddai hyn yn amodol ar hysbysiadau wal	2	0.5%

		gydrannol, ond ar hyn o bryd ni fyddai angen prynu dim tir ychwanegol.		
9.	<b>Cyfleusterau cymunedol</b> Nododd ymatebwyr fod angen sicrhau bod yr ysgol newydd yn cynnwys cyfleusterau y gellid eu rhannu â'r gymuned.	Bydd yr ysgol newydd yn cael ei chynllunio mewn modd sy'n hwyluso defnydd cymunedol. Byddai'r buddsoddiad arfaethedig o fudd i'r ddwy gymuned drwy alluogi rhannu defnydd o'r cyfleusterau y tu allan i oriau ysgol.	1	<b>0.2%</b>
10.	<b>Trefniadau Pontio</b> Gofynnodd ymatebwyr a fyddai digon o le ac adnoddau ar gyfer y ddwy ysgol am y tro a hyd nes bod yr ysgol newydd yn barod.	Mae'r trefniadau pontio ar gyfer y cynnig wedi'u cynllunio'n ofalus i sicrhau bod cyn lleied o darfu ac effaith niweidiol â phosibl ar ddysgwyr. Yn ystod y cyfnod pontio bydd y disgyblion yn aros ar eu safleoedd ysgol presennol o dan reolaeth Ysgol Llandybïe hyd nes bod yr adeilad newydd yn barod i symud iddo er mwyn darparu ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Blaenau ac Ysgol Llandybïe.	1	<b>0.2%</b>
11.	<b>Cynhwysiant</b> Nododd ymatebwyr fod angen cynnwys Blaenau yn y cynllunio a pheidio â'i adael i Lywodraethwyr Llandybïe yn unig.	Bydd yr Awdurdod Lleol yn annog y ddwy ysgol i gydweithio er budd yr holl ddisgyblion.  Yn yr un modd, bydd cymuned Blaenau a Llandybïe yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y broses ymgynghori newydd ar gynllunio/dylunio yr ysgol newydd.	1	<b>0.2%</b>
12.	<b>Safleoedd ysgol diangen</b> Gofynnodd ymatebwyr beth fyddai'n digwydd i'r hen safle ysgol.	Os mabwysiedir y cynnig, trosglwyddir unrhyw eiddo afraid i'r Is-adran Adfywio er mwyn gweithredu'r gweithdrefnau a amlinellwyd yn y polisi ynghylch	1	<b>0.2%</b>

		<p>Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid o ganlyniad i'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Datblygwyd y polisi hwn er mwyn gallu cynnig yr ased i'r gymuned yn gyntaf oll cyn gosod y safle ar y farchnad agored.</p> <p>Byddai unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir o ganlyniad i'r cynnig yn cael eu hailfuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.</p>		
13.	<b>Capasiti'r ysgol newydd</b> Nododd ymatebwyr fod angen sicrhau nad oedd y cynnydd mewn lleoedd yn rhoi disgyblion dan anfantais.	Darperir ar gyfer capaciti newydd yr ysgol drwy le digonol i nifer y disgyblion; darparu amgylchedd dysgu addas ac ysgogol gyda chyflenwad digonol o adnoddau dysgu da sy'n cyfateb yn dda i anghenion disgyblion.	1	0.2%
14.	<b>Ymgynghori yn ystod pandemig</b> Nid oedd ymatebwyr yn credu bod ymgynghori yn ystod pandemig yn briodol. Roedd ymatebwyr yn credu bod y broses ymgynghori yn ddiffygol heb gyfarfodydd wyneb yn wyneb.	<p>Paratowyd a chynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â gofynion <a href="#">Côd Trefniadaeth Ysgolion Llywodaeth Cymru (2018)</a>.</p> <p>Nid yw'r <a href="#">Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018)</a> yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr 'gynnal cyfarfodydd ymgynghori er y bydd amgylchiadau lle bydd cynigwyr yn ystyried y bydd cyfarfod â grwpiau penodol o ymgyngoreion yn helpu'n fawr i ledaenu gwybodaeth ac yn darparu llwyfan addas i'r ymgyngoreion gymryd eu barn yn hysbys.'</p> <p>Oherwydd goblygiadau parhaus pandemig y coronafeirws yn ystod y cyfnod ymgynghori, rhoddodd yr Awdurdod Lleol gyfle i ymgyngoreion</p>	1	0.2%

		fynychu sesiynau galw heibio rhithwir yn lle cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Roedd hwn yn gyfle i ymgynghoreion ofyn cwestiynau, mynegi eu barn a thraffod y cynnig gyda swyddogion yr Awdurdod Lleol. Er derbyn na fyddai pob rhanddeiliaid yn gallu cael mynediad i sesiwn galw heibio rithwir, rhoddydwyd cyfle i bob ymgynghorai gyflwyno ei farn neu ofyn cwestiynau drwy lythyr, ffôn neu e-bost. Er bod manteision cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ddealladwy, mewn ymateb i'r pandemig, addasodd yr awdurdod lleol ei ddulliau ymgysylltu er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad mor hygrych â phosibl i bawb. Mae llawer o'r dulliau hyn wedi bod hyd yn oed yn fwya'r llwyddiannus na chyfarfodydd traddodiadol wyneb yn wyneb a dulliau blaenorol a ddefnyddiwyd mewn ymgynghoriadau hanesyddol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i addasu ei ddulliau cyfathrebu i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid.		
15.	<b>Cefnogaeth i ysgolion bach</b> Nododd ymatebwyr y dylai ysgolion bach aros ar agor.	Nodwyd y sylwadau.	1	<b>0.2%</b>
16.	<b>Cefnogol i newid natur y ddarpariaeth</b> Roedd yr ymatebwyr wedi dweud eu bod yn hapus â'r cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Llandybïe i gyfrwng Cymraeg.	Mae'r gefnogaeth yn cael ei nodi. Barn yr Awdurdod Lleol, ar sail tystiolaeth ryngwladol a phrofiad lleol, yw bod plant yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwytio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn	1	<b>0.2%</b>

		<p>ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrrfa. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod plant yn cael addysg ddwyieithog y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyd-destun lleol.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y bydd dwyieithrwydd yn sgil mwyfwy pwysig yn y byd gwaith gydag amser. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.</p>		
17.	<b>Adleoli Ysgol Llandybïe</b> Roedd ymatebwyr yn falch yngylch y cynlluniau i symud Ysgol Llandybïe o'i safle presennol i safle newydd gan y byddai llai o darfu ar drigolion presennol adeg gollwng/codi plant o'r ysgol.	Mae'r gefnogaeth yn cael ei nodi.	1	0.2%
<b>Ddim yn siŵr (ymatebwyr heb ymateb y naill ffordd na'r llall)</b>				
1.	<b>Y sefyllfa bresennol</b> Nododd ymatebwyr y dylid datblygu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Llandybïe, ond na ddylid cau Ysgol Blaenau.	Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau'r lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgolion ac i	1	0.2%

		hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisiau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig hwn yn gwreddu'r uchelgais hwn ac yn darparu darpariaeth addysgu a dysgu ar gyfer yr 21ain Ganrif i gymunedau Blaenau a Llandybïe.		
<b>2.</b>	<b>Dim rheswm</b> Nid oedd ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu hymateb.		<b>1</b>	<b>0.2%</b>

<b>Pryderon a Godwyd</b>				
1.	<b>Effaith ar y Gymuned</b> Mynegodd ymatebwyr bryder am effaith negyddol cau'r ysgol ar y gymuned. Nododd ymatebwyr fod gan yr ysgol hanes cyfoethog a'i bod yn cael ei gwerthfawrogi gan y gymuned a'r teuluoedd.	Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod mai un o brif anfanteision derbyn y cynnig yw colli presenoldeb ysgol yng nghymuned Blaenau. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bydd y cynnig yn gwella mynediad cymuned Blaenau i gyfleusterau cymunedol, addysgu, a dysgu sy'n perthyn i'r 21ain ganrif drwy rannu defnydd.  Prif ddiben ysgol yw addysgu'r disgylion hyd at y safonau gorau posibl, ac nid yw'n rhesymol disgwyl i ysgolion ysgwyddo'r baich ehangach o'r effaith ar y gymuned. Yn y pen draw, nid yw ffactorau economaidd a chymdeithasol yn faterion addysgol, ac ni ellir caniatáu iddynt beryglu addysg plant.	120	29%

2.	<p><b>Ffafrio ysgol fach</b></p> <p>Nododd ymatebwyr eu bod yn ffafrio ysgolion bach a manteision y math hwn o ddarpariaeth e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dosbarthiadau oedran cymysg</li> <li>• Dosbarthiadau bach</li> <li>• Cymhareb Athro-Disgybl</li> <li>• Staff a disgyblion yn gyfarwydd â'i gilydd</li> </ul>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai rhieni fod yn ffafrio'r math o addysg y maent yn dymuno i'w plentyn ei derbyn.</p> <p>'Gall rhieni fynegi eu bod yn dewis ysgol nad yw'n ysgol ddynodedig y dalgylch. Os dilynir y gweithdrefnau cywir ac os nad yw nifer y disgyblion yn fwy na'r nifer y caniateir i'r ysgol ei derbyn, bydd lle yn cael ei roi.' <a href="#"><u>Derbyn i Ysgolion: Llyfrynn Gwybodaeth i Rieni 2021-2022</u></a></p> <p>Rhaid rhoi sylw dyledus i'r manteision cymdeithasol ac addysgol posibl sydd ar gael i blant drwy ddysgu a gweithio mewn partneriaeth ag ystod ehangach o gyfoedion a staff.</p> <p>Gall disgyblion ddysgu gan gyfleoedd i gydweithio ac adeiladu perthnasoeedd mewn pob math o ddosbarthiadau, boed yn grwpiau cymysg neu o'r un oedran.</p> <p>Gwnaed llawer o ymchwil i effaith maint dosbarthiadau, ond mae llawer o'r ymchwil yn anghyson. Meddai Andreas Schleicher, Cyfarwyddwr Addysg a Sgiliau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD): "Ym mhob man, mae athrawon, rhieni a llunwyr polisi yn ffafrio dosbarthiadau bach gan ddweud eu bod yn allweddol i addysg well a mwy personol ..... ac eto, nid yw canlyniadau Pisa yn dangos unrhyw berthynas rhwng maint dosbarthiadau a deilliannau</p>	110	26%
----	--	---	-----	-----

		dysgu, dim o fewn gwledydd nac ar draws gwledydd."		
3.	<p><b>Y sefyllfa bresennol</b></p> <p>Nododd ymatebwyr y dylai'r ddwy ysgol barhau'n annibynnol ac na ddylai Ysgol Blaenau gau. Canmolodd ymatebwyr yr ysgol a'r ddarpariaeth addysg ragorol yn Ysgol Blaenau ac ailadrodd na ddylai gau.</p>	<p>Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau'r lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgolion ac i hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisiau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig hwn yn gwreddu'r uchelgais hwn ac yn darparu darpariaeth addysgu a dysgu ar gyfer yr 21ain Ganrif i gymunedau Blaenau a Llandybïe.</p>	102	24%
4.	<p><b>Ymgynghori yn ystod pandemig</b></p> <p>Nid oedd ymatebwyr yn credu bod ymgynghori yn ystod pandemig yn briodol. Nid oeddent yn teimlo bod y gofynion oedd ynglwm wrth gadw pellter cymdeithasol yn caniatáu ymgynghoriad llawn a thryloyw.</p> <p>Nododd ymatebwyr effaith niweidiol ymgynghori yn ystod pandemig ar iechyd meddwl a llesiant rhanddeiliaid.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn sylweddoli bod y 21 mis diwethaf wedi bod yn hynod anodd i deuluoedd.</p> <p>Hoffai'r Awdurdod Lleol sicrhau rhanddeiliaid bod yr ymgynghoriad wedi'i baratoi a'i gynnal yn unol â gofynion <a href="#">Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018)</a> a'r canllawiau ar 'Newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn ymateb i'r argyfwng coronafeirws' a gyhoeddwyd ar 8 Ionawr 2021, a oedd yn caniatáu i ymgynghoriadau ag ysgolion barhau yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y canllawiau hyn yn cynnwys newidiadau dros dro i rai o ofynion y Cód Trefniadaeth Ysgolion ac yn rhoi cyngor i</p>	99	24%

	<p>Awdurdodau Lleol am ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion yn ystod yr argyfwng coronafeirws (COVID-19).</p> <p>Yn dilyn hynny, ar 16 Chwefror 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau pellach ar ymgynghori ynghylch cynigion trefniadaeth ysgolion yn ystod pandemig y Coronafeirws. Mewn ymateb i'r canllawiau hyn, yn dilyn cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol ar 22 Chwefror 2021, penderfynwyd ymestyn y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig tan 1 Mawrth 2021.</p> <p>Cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn ymhellach ar 1 Mawrth i 16 Gorffennaf 2021, wedi i'r Bwrdd Gweithredol ystyried rhybudd o gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor Sir ar 10 Chwefror 2021.</p> <p>Oherwydd goblygiadau parhaus pandemig y coronafeirws yn ystod y cyfnod ymgynghori, rhoddodd yr Awdurdod Lleol gyfle i ymgryngoreion fynychu sesiynau galw heibio rhithwir yn lle cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Roedd hwn yn gyfle i ymgryngoreion ofyn cwestiynau, mynegi eu barn a thrafod y cynnig gyda swyddogion yr Awdurdod Lleol. Er derbyn na fyddai pob rhanddeiliad yn gallu cael mynediad i sesiwn galw heibio rithwir, rhoddwyd cyfle i bob ymgynghorai gyflwyno ei farn neu ofyn cwestiynau drwy lythyr, ffôn neu e-bost.</p> <p>Er bod manteision cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cydnabod, mewn ymateb i'r pandemig,</p>	
--	--	--

		addasodd yr awdurdod lleol ei ddulliau ymgysylltu er mwyn sicrhau bod yr ymgyngoriad mor hygrych â phosibl i bawb. Mae llawer o'r dulliau hyn wedi bod hyd yn oed yn fwy llwyddiannus na chyfarfodydd traddodiadol wyneb yn wyneb a dulliau blaenorol a ddefnyddiwyd mewn ymgyngoriadau hanesyddol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i addasu ei ddulliau cyfathrebu i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid.		
5.	<p><b>Effaith ar amserau a phellter teithio disgyblion</b></p> <p>Nododd ymatebwyr y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar allu disgyblion i gerdded i'r ysgol a'r trefniadau cludiant teuluol presennol.</p> <p>Mynegwyd pryderon am ddiogelwch disgyblion wrth gerdded o ddal gylch presennol Ysgol Blaenau i safle arfaethedig yr ysgol newydd a goblygiadau teithio cynyddol ar yr Ôl Troed Carbon. Nododd ymatebwyr fod hyn yn mynd yn groes i Bolisi CSC.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai gweithredu'r cynnig effeithio ar drefniadau trafnidiaeth a theithio presennol disgyblion a theuluoedd. Os gweithredir y cynnig, y pellter o Ysgol Blaenau i'r safle <b>arfaethedig a ffefrir</b> ar gyfer yr ysgol newydd yw tua 1.3 milltir. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Cyngor.</p>	94	22%

6.	<p><b>Dewis ysgol fach yn y dyfodol</b></p> <p>Roedd ymatebwyr yn credu, drwy gau Ysgol Blaenau, na fyddai rhieni'n gallu dewis i'w plentyn fynychu ysgol fach yn y dyfodol.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai rhieni fod yn ffafrio'r math o addysg y maent yn dymuno i'w plentyn ei derbyn.</p> <p>'Gall rhieni fynegi eu bod yn dewis ysgol nad yw'n ysgol ddynodedig y dalgylch. Os dilynir y gweithdrefnau cywir ac os nad yw nifer y disgyblion yn fwy na'r nifer y caniateir i'r ysgol ei derbyn, bydd lle yn cael ei roi.' <a href="#">Derbyn i Ysgolion: Gwybodaeth i Rieni 2021 - 2022</a>.</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth am bolisi derbyniadau yr Awdurdod Lleol ar gael yn llyfrynn Cyngor Sir Caerfyrddin <a href="#">Derbyn i Ysgolion: Gwybodaeth i Rieni 2021-2022</a>.</p>	88	21%
7.	<p><b>Llwyddiant y Cylch Meithrin yn Ysgol Blaenau ac effaith cau</b></p> <p>Nododd ymatebwyr fod y Cylch Meithrin yn llwyddiannus iawn a gallai gefnogi'r cynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ysgol. Roedd ymatebwyr yn pryderu hefyd byddai'r Cylch Meithrin yn colli ei gartref a byddai'r gymuned yn colli gwasanaeth gwerthfawr pe bai'r cynnig i beidio â chynnal Ysgol Blaenau yn cael ei weithredu.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd y Cylch Meithrin ar gyfer addysg a datblygiad plant.</p> <p>Er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai'r Cylch Meithrin gefnogi nifer y disgyblion, mae cynaliadwyedd Ysgol Blaenau yn y dyfodol wedi cael ei ystyried am sawl rheswm gan gynnwys niferoedd ac amcanestyniadau disgyblion, cyllideb yr ysgol, cyflwr yr adeilad/adnoddau, a'r cynnig i ddarparu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Llandybïe sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion Blaenau elwa ar hynny. Felly nid yw'r penderfyniad i beidio â chynnal Ysgol Blaenau wedi'i seilio'n llwyr ar nifer y disgyblion.</p>	81	19%

		<p>Byddai lleoliad y Cylch Meithrin yn Ysgol Blaenau yn y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o'r cynnig. Byddai'r ysgol newydd yn cynnwys lle ar gyfer darpariaeth gofal plant.</p> <p>Os gweithredir y cynnig, byddai dalgylch Ysgol Gynradd Llandybïe yn cael ei newid i gynnwys dalgylch hen Ysgol Gynradd Blaenau, felly byddai gan gymuned Blaenau fynediad i'r ddarpariaeth gofal plant o fewn y datblygiad ysgol newydd.</p>		
8.	<b>Dim rheswm</b> Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu gwrthwynebiad.		63	15%
9.	<b>Pryderon ynghylch ysgolion/dosbarthiadau mawr</b> Nododd ymatebwyr bryderon na fyddai disgyblion yn ymdopi/ffynnu mewn ysgol fawr ac roeddent o'r farn nad oedd dosbarthiadau mawr yn dda ar gyfer addysg disgyblion.	<p>Gall disgyblion ddatblygu a ffynnu ym mhob math o ddosbarth. Mae addysg o safon uchel yn cael ei darparu ar hyn o bryd mewn ysgolion mawr iawn.</p> <p>Mae arolygiad Estyn ar gyfer adeilad ysgol newydd â 315 lle a 45 lle meithrin yn Sir Gaerfyrddin yn nodi bod yr ysgol yn darparu 'amgylchedd cartrefol a chynhwysol' sy'n 'cyfrannu at ymdeimlad disgyblion o falchder yn eu gwaith ac o berthyn i'w hysgol.' Maent yn hapus i fynychu'r ysgol, yn ymddwyn yn dda iawn, ac yn datblygu agweddu cadarnhaol at ddysgu.'</p> <p>Mae Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013 yn gosod terfyn ar faint</p>	28	7%

dosbarthiadau babanod h.y. blynnyddoedd Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.  
Y terfyn a osodir yw'r uchafswm o 30 o ddisgyblion mewn dosbarth babanod ar unrhyw adeg pan gaiff sesiwn ddysgu arferol ei chynnal gan un athro (neu, os cynhelir y sesiwn gan fwy nag un athro, uchafswm o 30 disgybl i bob athro).

Felly, mae holl Ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'u rhwymo'n gyfreithiol i gadw maint dosbarthiadau Babanod i derfyn o 30 o ddisgyblion.

Er nad oes deddfwriaeth sy'n cyfyngu dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 i 30 neu lai, mae gan Lywodraeth Cymru darged o sicrhau bod plant 7 i 11 oed yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o 30 o blant ar y mwyaf fesul athro ysgol.

Penderfynir ar gapasiti mewn ysgolion drwy ddefnyddio dull Llywodraeth Cymru ar gyfer Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn darparu dull cadarn a chyson o asesu capasiti ysgolion, ac, yn dilyn hynny, capasiti maint dosbarthiadau. Mae'r fethodoleg hon yn defnyddio fformiwla i ddarparu asesiad realistig a chyson o gapasiti'r holl ysgolion cynradd.

Nod yr Awdurdod Lleol yw cael dosbarthiadau o faint addas sydd heb fwy na dau o grwpiau blwyddyn fesul dosbarth ac nad ydynt yn rhychwantu cyfnodau allweddol y cwricwlwm.

		<p>Mae llawer o fanteision hefyd i ysgolion sydd â mwy o ddisgyblion gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arbedion maint – e.e. defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol</li> <li>• Mwy o gyfle i gymdeithasu ag ystod ehangach o ddisgyblion a gwell cyfle i allu dewis eu ffrindiau a/neu gael cylch ehangach o ffrindiau</li> <li>• Gwell cyfle i allu cymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o dimau chwaraeon a diwylliannol, gyda'r cymhelliant ychwanegol o gystadleuaeth 'gyfeillgar'</li> <li>• Mwy o gyfle i allu gweithio gyda disgyblion o allu tebyg</li> </ul>		
10.	<p><b>Safon y Ddogfen Ymgynghori a gwybodaeth anghywir</b></p> <p>Teimlai'r ymatebwyr fod y Ddogfen Ymgynghori yn rhagfarnllyd ac yn cynnwys gwybodaeth ffug/camarweiniol.</p> <p>Nid oedd ymatebwyr yn credu bod y ddogfen Ymgynghori wedi ystyried egwyddorion polisi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Roedd ymatebwyr yn beirniadu ansawdd a dyfnder</p>	<p>Mae'r ddogfen ymgynghori a luniwyd yn cydymffurfio â'r canllawiau fel y'u nodir yn y <a href="#">Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018)</a>.</p> <p>Mae'r holl ddata a gwybodaeth yn y Ddogfen Ymgynghorol yn gywir ac wedi'i seilio ar Ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae'r holl ddata a gynhwysir yn y Ddogfen Ymgynghorol wedi ei nodi fel gofyniad yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).</p> <p>Er bod yr awdurdod lleol yn nodi'r sylwadau a wnaed, rhaid ailadrodd bod yr holl atebion a roddwyd mewn ymateb i ymholiadau a godwyd drwy</p>	9	2%

	y wybodaeth a gafwyd gan swyddogion mewn ymateb i ymholiadau a godwyd.	sesiynau galw heibio neu ddulliau eraill yn seiliedig ar wybodaeth ffeithiol a chywir.		
11.	<b>Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)</b> Roedd ymatebwyr yn credu byddai disgyblion ag ADY yn cael trfferth gyda'r newid, ac wedi holi sut byddai disgyblion yn cael eu cefnogi. Mae ymatebwyr yn credu bod ysgolion bach yn well ar gyfer disgyblion sydd angen addysgu un i un.	Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd. Ni ddylai maint yr ysgol a'r ystafell ddosbarth fod yn ffactor pan fydd ysgolion yn darparu dull dysgu sy'n canolbwytio ar unigolion a gefnogir gan becynnau dysgu personol gydag ymyriadau, strategaethau a chyfleoedd wedi'u targedu'n unigol a'r cymorth angenrheidiol i'w darparu.	8	2%
12.	<b>Newid natur y ddarpariaeth</b> Roedd ymatebwyr yn cwestiynu'r angen i newid natur darpariaeth Ysgol Llandybïe, o un drosiannol i un cyfrwng Cymraeg.	Mae'r cynnig hwn yn ceisio gwella ymhellach gyfleoedd i'r plant sy'n mynychu'r ysgol sicrhau deilliannau sy'n gwella'n barhaus. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod rhagor o ddisgyblion yn cael cyfreithiol i ddod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn 11 oed.	6	1%

Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg.

Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir. Ar 25 Mehefin 2018 lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyddin. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.

Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyddin.

Mae'n bwysig nodi bod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn mynnu bod holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyddin, gan gynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg, yn symud ar hyd y continwwm iaith, gan

	<p>ddal i gynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda golwg ar sicrhau ymhen amser y bydd yr holl blant yn ddwyieithog pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd.</p> <p>Bydd pa mor gyflym y gall ysgolion ehangu dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ond mae'r disgwyl am gynnydd yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r ysgol wedi'i chlustnodi fel un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith.</p> <p>Mae'r Bil Cwricwlwm hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer y cwricwlwm newydd gan fod y Gymraeg yn elfen fandadol o gwricwlwm ysgol neu leoliad ar gyfer plant neu ddisgyblion o 3 oed a bydd Saesneg yn fandadol o 7 oed</p> <p>Nid oes amheuaeth ynghylch manteision addysgu trochi yn addysgol ac yn wybyddol. Yng ngeiriau'r Athro Colin Baker</p> <p><b><i>"Language among young children is caught rather than taught. The process is not learning but acquisition"</i></b></p> <p>Mae strategaeth Cymraeg 2050 hefyd yn nodi'n glir mai addysg drochi Gymraeg lawn yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o greu unigolion sydd â'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.</p>	
--	---	--

13.	<p><b>Cyflwr ac addasrwydd ysgol bresennol Blaenau</b></p> <p>Soniodd ymatebwyr sut oedd diffyg buddsoddiad gan yr Awdurdod Lleol wedi caniatáu i gyflwr ac addasrwydd adeilad Ysgol Blaenau ddirywio i sefyllfa lle ystyrid mai cau oedd yr opsiwn a ffefrir.</p>	<p>Mae cyfrifoldeb ar Gyrff Llywodraethu Ysgolion i gynnal a chadw ysgolion, yn ogystal â'r Awdurdod Lleol.</p> <p>Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw gwaith CYFALAF ei natur a byddai unrhyw waith gofynnol arall yn REFENIW ei natur ac felly cyfrifoldeb yr ysgol fyddai.</p> <p>Mae'r gyllideb ar gyfer gwaith cynnal a chadw CYFALAF mawr mewn ysgolion dan bwysau difrifol ac mae gwaith brys yn cael ei flaenoriaethu'n flynyddol ar draws yr ystâd ysgolion.</p> <p>Cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol Raglen Moderneiddio Addysg ddiwygiedig a Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif ar 18 Rhagfyr 2017, lle cymeradwywyd mynd ar drywydd cyllid grant (gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer cyfanswm o 19 o brosiectau unigol am gyfanswm o £129.5m a oedd yn cynnwys cynllun ar gyfer Ysgol Llandybïe. Oherwydd yr heriau a wynebir yn Ysgol Blaenau, byddai'n annhebygol o ddenu cyllid Llywodraeth Cymru gan na fyddai'n cael ei hystyried yn ddigon strategol, o gofio bod ysgol newydd ar gyfer Ysgol Llandybïe yn cael ei chynnig ar gyfer yr ardal.</p>	5	1%
14.	<p><b>Effaith ar y Gymraeg</b></p> <p>Nododd ymatebwyr y byddai cau Ysgol Blaenau yn cael</p>		4	1%

	<p>effaith niweidiol ar y Gymraeg. Ysgol Blaenau yw'r unig ysgol cyfrwng Cymraeg fach yn yr ardal. Nododd ymatebwyr y gallai cau Ysgol Blaenau arwain at ddisgyblion yn dewis ysgol fach cyfrwng Saesneg arall.</p>	<p>Fel rhan o'r cynnig, bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith cyfrwng Cymraeg presennol.</p> <p>Os gweithredir y cynnig, bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod disgyblion Ysgol Blaenau yn symud i'r datblygiad ysgol newydd, lle byddai disgyblion yn gallu parhau â'u taith addysg cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Caiff statws iaith pob ysgol ei adolygu fel rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg – ac wrth i fwy o ysgolion deithio ar hyd y continwwm iaith. Bydd yr adolygiad hwn yn berthnasol i ysgolion cyfrwng Saesneg bach yn ogystal â phob ysgol arall.</p>		
15.	<p><b>Enw'r ysgol newydd</b> Nododd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod gan yr ysgol newydd enw newydd a fyddai'n cynnwys Ysgol Blaenau.</p>	<p>Er bod yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r syniad bod enw'r ysgol newydd yn adleisio'r ddwy ysgol/cymuned, nid oes ganddo'r pŵer i orfodi hyn. Penderfyniad i Gorff Llywodraethu'r ysgol fydd enw'r ysgol newydd.</p>	3	0.7%
16.	<p><b>Pwysau ariannol</b> Roedd ymatebwyr yn credu bod y cynnig yn cael ei weithredu am resymau ariannol ac er mwyn osgoi buddsoddi yn Ysgol Blaenau.</p>	<p>Gwnaed y penderfyniad i beidio â chynnal Ysgol Blaenau yn seiliedig ar nifer o ffactorau unigol gan gynnwys niferoedd ac amcanestyniadau disgyblion, cyllideb yr ysgol, cyflwr ac addasrwydd adeiladau/adnoddau, a'r cynnig i ddarparu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Llandybïe sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion Blaenau elwa ar hynny.</p>	3	0.7%

		At hynny, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol Raglen Moderneiddio Addysg ddiwygiedig a Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif (Band A) ar 18 Rhagfyr 2017, pryd cymeradwywyd mynd ar drywydd cyllid grant (gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer cyfanswm o 19 o brosiectau unigol am gyfanswm gwerth o £129.5m a oedd yn cynnwys cynllun ar gyfer Ysgol Llandybïe.		
17.	<b>Safleoedd ysgol diangen</b> Gofynnodd ymatebwyr beth fyddai'n digwydd i'r hen adeiladau ysgol a chredent y byddent yn cael eu gadael i fynd rhwng y cŵn a'r brain ar ôl eu cau.	<p>Os mabwysiedir y cynnig, trosglwyddir unrhyw eiddo afraid i'r Is-adran Adfywio er mwyn gweithredu'r gweithdrefnau a amlinellwyd yn y polisi yng'hylch Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid o ganlyniad i'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Datblygwyd y polisi hwn er mwyn gallu cynnig yr ased i'r gymuned yn gyntaf oll cyn gosod y safle ar y farchnad agored.</p> <p>Byddai unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir o ganlyniad i'r cynnig yn cael eu hailfuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.</p>	3	0.7%
18.	<b>Arweinyddiaeth gynaliadwy</b> Roedd ymatebwyr yn cwestiynu diffyg arweinyddiaeth barhaol heb unrhyw ymrwymiad addysgu yn Ysgol Blaenau i reoli'r ysgol.	Caiff cyllido ysgolion ei seilio ar niferoedd disgylion yn unol â pholisi ariannu teg Sir Gaerfyrddin. Yn naturiol, bydd cyllidebau mwy gan ysgolion mwy o faint a chyflleoedd i benaethiaid ganolbwytio ar arweinyddiaeth a datblygiad strategol gan gynnwys monitro a gwella dysgu.	2	0.5%

19.	<b>Effaith y cynnig ar y disgyblion presennol</b> Nododd ymatebwyr fod angen ystyried effaith y cynnig ar ddisgyblion presennol Ysgol Blaenau.	Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod cynigion i ad-drefnu ysgolion yn gallu creu cyfnod o ansicrwydd i ddisgyblion.  Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol yn hyderus y byddai athrawon a staff cymorth ysgolion yn rhoi cymorth priodol i ddisgyblion yn ystod y cyfnod hwn er mwyn lleihau unrhyw effaith niweidiol ar eu llesiant.  At hynny, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai disgyblion yn cael eu cefnogi wrth iddynt bontio er mwyn sicrhau profiad cadarnhaol.	2	0.5%
20.	<b>Effaith y cynnig/sïon</b> Nododd ymatebwyr effeithiau negyddol yr ymgynghoriad a'r sïon blaenorol ynghylch cynaliadwyedd Ysgol Blaenau.	Er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod effaith niweidiol sïon o'r fath - mae bod yn agored ac yn dryloyw yn allweddol i ymgynghori effeithiol, er mwyn i rieni ystyried beth sydd orau i'w plentyn yn y tymor hir.	1	0.2%
21.	<b>Safle arfaethedig yr ysgol newydd</b> Mynegwyd pryderon ynghylch colli'r maes hamdden y bwriedir adeiladu'r ysgol newydd arno.	Ar 15 Rhagfyr 2014 cytunwyd yn unfrydol gan Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin ar becyn i gynnig cyfle i Gynghorau Tref a Chymuned a gwahanol Sefydliadau gymryd cyfrifoldeb dros reoli'r gwahanol gyfleusterau/asedau yn eu hardaloedd. Roedd y Cynghorwyr yn credu y gallai trosglwyddo'r asedau hyn roi mwy o reolaeth i bobl leol dros eu hardal a'u cymuned. Roedd y Bwrdd hefyd wedi pennu dyddiad cau terfynol sef 31 Mawrth 2018 ar	1	0.2%

		<p>gyfer y gwaith trosglwyddo, ac wedi cadarnhau y byddai angen rhoi rhagor o ystyriaeth i ddyfodol unrhyw asedau nad ydynt yn cael eu trosglwyddo, gan gynnwys yr opsiwn o roi'r gorau i'w cynnal.</p> <p>Cynhaliwyd cyfnod ymgyngħori, a gofynnwyd am fynegiannau o ddiddordeb gan Unigolion, Grwpiau Cymunedol ac o'r Sector Gwirfoddol a Chyngħorau Tref a Chymuned.</p> <p>Ar 26 Chwefror 2018, wrth ystyried yr opsiynau o ran trosglwyddo asedau gweddill y parciau, y lleoedd chwarae a'r mannau amwynder, penderfynodd y Bwrdd Gweithredol y byddai'r asedau hynny nad oes mynegiant o ddiddordeb wedi dod i law ar eu cyfer cyn 1 Ebrill 2018 yn cael eu hystyried yn ddiangen ac y byddai Cyngor Sir Caerfyddin yn rhoi'r gorau i'w cynnal.</p> <p>Yn dilyn y cyfnod ymgyngħori, ni dderbyniwyd unrhyw fynegiant o ddiddordeb ar gyfer y maes hamdden yn Llandybïe a dyna pham mae'r tir bellach yn cael ei ystyried ar gyfer datblygu'r ysgol newydd.</p>		
